**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**18fed Mawrth 2013**

**CYNLLUN GWELLA A LLEIHAU RISG 2013-14**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 I gyflwyno, er mwyn cael cymeradwyaeth yr aelodau, y Cynllun Gwella a Lleihau Risg 2013-14 drafft.

## Cyflwyniad

2 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru lunio, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch, a chyhoeddi Cynllun Gwella ar gyfer bob blwyddyn ariannol.

3 Mae'r Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub gyhoeddi eu cynlluniau gwella cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl 31ain Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r Cynllun Gwella yn ymwneud â hi.

## Gwybodaeth

4 Yn ei gyfarfod ar 15fed Hydref 2012, cymeradwyodd yr Awdurdod ddrafft ymgynghori o'r Amcanion Gwella yr oedd yn eu cynnig ar gyfer 2013-14.

5 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bu Panel Gweithredol yr Awdurdod yn ystyried yr ymatebion a ddaeth i law a chymeradwyo llunio drafft terfynol o Gynllun Gwella 2013-14 i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn y cyfarfod hwn. Mae'r drafft terfynol hwn ar gael yn Atodiad 1.

## Argymhelliad

6 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo drafft terfynol Cynllun Gwella 2013-14 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd Mawrth 2013.